**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd**
**Dydd Gwener 20 Gorffennaf 2018, 1.30pm – 3.30pm**
**Powerhouse (Hyb Llanedern)**

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | |
| **Aelodau'r Bwrdd:** | |
| Y Cynghorydd Huw Thomas **(Cadeirydd)** | Arweinydd, Cyngor Caerdydd (CC) |
| Maria Battle **(Is-gadeirydd)** | Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF) |
| Sarah McGill | Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau CC |
| Fiona Kinghorn | Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, BIPCF |
| Abigail Harris | Cyfarwyddwr Cynllunio, BIPCF |
| Nadia De Longhi | Rheolwr Gweithrediadau, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) |
| Dai Bents | Rheolwr Grŵp Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| Mark Brace | Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throseddu |
| Stephen Jones | Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru (HDC) |
| **Ymddiheuriadau:** | |
| Paul Orders | Prif Weithredwr, CC |
| Len Richards | Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Sharon Hopkins | Dirprwy Brif Weithredwr, BIPCF |
| Gareth O'Shea | Cyfarwyddwr Gweithredol De Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Huw Jakeway | Prif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| Sheila Hendrickson-Brown | Prif Swyddog Gweithredol Cyngor Trydydd Sector Caerdydd |
| Jo Salway | Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru |
| Hannah Williams | Pennaeth Uned Gyflenwi Leol (UGL) i'r Gwasanaeth Prawf |
| Victoria Harris | Pennaeth UGL, Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru (ACC) |
| Danny Khan | Pennaeth, Carchar ei Mawrhydi Caerdydd |
| **Hefyd yn bresennol :** | |
| Kate Fitzgerald | Rheolwr Tîm, Tîm y Fro, ACC |
| Joe Reay | Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau CC |
| Gareth Newell | Rheolwr Polisi, Partneriaethau ac Ymchwil CC |
| Nathan Swain | Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau CC |
| Clive Bailey (Clerc) | Swyddog Polisi a Phartneriaethau CC |
| Y Cyng.Caro Wild | Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth, CC |
| Andrew Gregory | Cyfarwyddwr, Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, CC |
| Gary Brown | Rheolwr Gweithrediadau, Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, CC |
| Dr Tom Porter | Ymgynghorydd ym Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Jane Thomas | Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Tai a Chymunedau, CC |
| Avril Hooper | Rheolwr Gweithredol, Dechrau'n Deg Caerdydd, CC |

| | |
|---|---|
| Stephanie Kendrick-Doyle | Rheolwr Diogelwch Cymunedol, CC |

| Rhif | Eitem ar yr Agenda | |
|---|---|---|
| 1. | **Croeso a Chyflwyniadau**<br><br>Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel uchod. | |
| 2. | **Cofnodion a chamau gweithredu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – 1 Mai 2018**<br><br>Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod.<br><br>**Cofnodion Drafft Bwrdd Cyflawni'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – 5 Mehefin 2018**<br><br>Ni chodwyd unrhyw faterion. | |
| 3. | **Twf Cadarn: Aer Glân a Theithio Llesol**<br><br>Cyflwynodd y Cyng. Wild ac Andrew Gregory grynodeb o'r gwaith a gyflawnwyd mewn perthynas â'r Papur Gwyrdd ar Aer Glân diweddar, gan roi diweddariad i'r BGC am y rhaglen waith sydd bellach yn mynd rhagddi er mwyn ymateb i'r cyfarwyddyd cyfreithiol a ddaeth i law'r Cyngor ar Ansawdd Aer.<br><br>Rhoddodd Gary Brown gyflwyniad manwl ar ansawdd aer gan roi diweddariad o'r cynnydd o ran cydymffurfio â'r terfynau cyfreithiol mewn cysylltiad â llygredd aer.<br><br>Rhoddodd Dr Tom Porter ddiweddariad i'r Bwrdd ar waith yr Arweinyddiaeth yn y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Teithio Llesol sy'n gyfrifol am osod targedau ar deithio llesol a chynaliadwy i staff a nodi rhaglen weithgaredd gyffredinol ledled aelodau'r BGC.<br><br>**CYTUNWYD:**<br>• I annog staff i gwblhau'r arolwg sylfaenol ar deithio llesol.<br>• Y byddai'r BGC yn cadw golwg ar y gwaith hwn i sicrhau bod cynlluniau gweithredu aelodau'r BGC yn ddigon uchelgeisiol.<br><br>**CAMAU GWEITHREDU:**<br>• Caiff diweddariad pellach ar y cynnydd gan gynnwys llinellau sylfaen a thargedau sefydliadol ei gyflwyno gerbron y Bwrdd | **Pawb**<br><br>**Pawb** |

| | | |
|---|---|---|
| | Twf Cadarn/BGC ym mis Hydref.<br>• Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Teithio Llesol yn ystyried cynigion pellach ar gyfer llunio ymgyrch gyfathrebu ar y cyd ar gyfer staff ar deithio llesol, gan gynnwys amlinelliad o amserlenni a chostau.<br>Dylid cyflwyno'r cynigion mewn cyfarfod Twf Cadarn/BGC yn y dyfodol gyda golwg ar ei gymeradwyo os cytunir ar hynny. | **Dr Tom Porter/ Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**Dr Tom Porter/ Ysgrifenyddiaeth** |
| **4.** | **Diweddariad y Bwrdd Gwella Canlyniadau i Blant**<br><br>Cyflwynodd Sarah McGill olwg cyffredinol ar raglen waith y Bwrdd Gwella Canlyniadau i Blant, gan bwysleisio pwysigrwydd atal, integreiddio a gweithio'n lleol, gan gynnwys y gwaith a gyflawnir yn y Project Plant a Theuluoedd.<br><br>Cyflwynodd Jane Thomas fanylion y model 'porth teuluoedd' newydd sydd ar waith ledled y ddinas mewn cysylltiad â rhoi help ar gamau cynnar, a datblygiad y dull lleol yn ardal Treláí/Caerau.<br><br>**CYTUNWYD:**<br>• Cytunwyd ar y model Porth Teuluoedd o ran egwyddor<br>• Gohirio'r drafodaeth ar Leoli Plant a Maethu a'i gynnwys mewn cyfarfod yn y dyfodol.<br><br>**CAMAU GWEITHREDU:**<br>• Datblygu'r model Porth Teuluoedd ymhellach a'i gynnwys fel eitem ar agenda'r BGC yn y dyfodol.<br>• Y dylid cynnwys Lleoli Plant a Maethu mewn agenda ar gyfer y dyfodol. | **Sarah McGill Ysgrifenyddiaeth**<br>**Sarah McGill Ysgrifenyddiaeth** |
| **5.** | **Lleihau Trais**<br><br>Y Prif Uwch Arolygydd Rhoddodd Stephen Jones gyflwyniad ar dueddiadau'n ymwneud â digwyddiadau treisgar sy'n arwain at anafiadau. Cynhaliwyd trafodaeth ar yr angen i sicrhau bod rhagor o gymorth ar gael mewn safleoedd y ceir llawer o achosion o drais ynddynt - rhai ohonynt yn ardaloedd y mae llawer o'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn y ddinas yn byw ynddynt.<br><br>Economi'r Nos a Strategaethau Troseddau a Gyflawnir â Chyllyll sydd â'r siawns gorau o wneud cynnydd yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o waith dadansoddi o ran y dull y dylid ei ddefnyddio gyda sefydliadau gofal.<br><br>Trafodwyd defnyddio Teledu Cylch Cyfyng i leihau nifer yr achosion o drais yn erbyn gweithwyr proffesiynol a gyrwyr tacsis yn ogystal. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **CAMAU GWEITHREDU:**<br>• Bydd Joe Reay yn cysylltu â'r tîm trwyddedu ynghylch defnyddio camerâu mewn cerbydau tacsi fel rhan o amodau'r drwydded.<br>• Dylid cynnwys defnyddio Teledu Cylch Cyfyng i leihau nifer yr achosion o drais yn erbyn gweithwyr proffesiynol a chynnal trafodaeth ehangach o ran dull ar y cyd o roi systemau Teledu Cylch Cyfyng ar waith ledled y ddinas yn eitem ar agenda'r BGC yn y dyfodol agos.<br>• Dylai Heddlu De Cymru gydweithio â BIP Caerdydd a'r Fro i lunio ymgyrch gyfathrebu yn ymwneud â thrais yn erbyn gweithwyr proffesiynol. | **Joe Reay / Stephanie Kendrick-Doyle**<br>**Y Prif Uwch Arolygydd Stephen Jones/Yr ysgrifenyddiaeth**<br><br>**Y Prif Uwch Arolygydd Stephen Jones/Ysgrifenyddiaeth** |
| **6.** | **Dyfodol y Gwasanaethau Llawfeddygaeth Thorasig**<br><br>Rhoddodd Abigail Harris grynodeb o'r cynnig i leoli canolfan llawfeddygaeth thorasig i oedolion yn Ysbyty Treforys yn Abertawe i wasanaethau cleifion o dde-ddwyrain Cymru, gorllewin Cymru a de Powys gan wahodd sefydliadau'r BGC i ymateb i'r ymgynghoriad (erbyn 27 Awst).<br><br>**CAMAU GWEITHREDU:**<br>• Dylai aelodau'r BGC sicrhau bod staff yn gwybod am yr ymgynghoriad.<br>• Dylai aelodau'r BGC ystyried ymateb i'r ymgynghoriad. Dylid rhannu'r ymatebion gyda'r BGC.<br>• Dylai canlyniadau'r ymgynghoriad fod yn eitem ar agenda'r BGC cyn y caiff penderfyniad ei wneud. | **Pawb**<br><br>**Pawb/Ysgrifenyddiaeth**<br>**Abigail Harris/Ysgrifenyddiaeth** |
| **7.** | **Unrhyw fusnes arall**<br><br>**CAMAU GWEITHREDU:**<br>• Dosbarthu rhestr aelodaeth bwrdd y rhaglen i'r bwrdd. Croesewir sylwadau ar yr aelodaeth. | **Ysgrifenyddiaeth** |
| | **Dyddiadau'r Cyfarfodydd Nesaf:**<br><br>• Bwrdd Cyflawni BGC 4 Hydref 2018<br>• Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd 20 Tachwedd 2018 | |